

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Uned Addysgu Ddeintyddol
– Canolfan Adnoddau Port
Talbot

9 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn:0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs:0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o'r Uned Addysgu Ddeintyddol yng Nghanolfan Adnoddau Port Talbot, Moor Road, Baglan, Port Talbot, SA12 7BJ, ar 9 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd yr Uned Addysgu Ddeintyddol yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn casglu gwybodaeth oddi wrth y cleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Agorwyd yr Uned Addysgu Ddeintyddol yn ystod 2010. Mae'n darparu hyfforddiant ar gyfer deintyddion sylfaen (graddedigion deintyddiaeth) mewn cydweithrediad â Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig).

Lleolir yr Uned mewn cyfleuster adnoddau cymunedol a adeiladwyd i bwrpas yn agos at ganol tref Port Talbot. Darperir, felly, triniaeth ddeintyddol gyffredinol ar gyfer cleifion yn ardal Port Talbot, gorllewin Morgannwg. Mae'r Uned yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Cyflogir aelodau parhaol o dîm staff yr Uned gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gan fod yr Uned yn rhan anhepgor o'r gwasanaethau a ddarperir gan y bwrdd iechyd hwn. Mae tîm y staff yn cynnwys cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi, dau oruchwyliwr addysgol, a deg deintydd sylfaen ar unrhyw adeg (mae pump ohonynt yn gweithio yn yr Uned bob wythnos, ar sail bob yn ail). Mae tîm yr Uned hefyd yn cynnwys rheolwr busnes, tîm o chwe nyrs ddeintyddol gofrestredig, un gweithiwr cymorth, a dau aelod o staff y dderbynfa.

Darperir ystod lawn o wasanaethau deintyddol y GIG.

3. Crynodeb

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r Uned Addysgu Ddeintyddol yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Canfuom hefyd fod y tîm yn rhoi pwyslais ar ddarparu gofal unigoledig i'r cleifion mewn da bryd.

Canfuom, serch hynny, fod angen gwneud peth gwelliannau i gynnwys y weithdrefn bryderon (cwynion) sydd ar waith. Argymhellwyd felly y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei chynhyrchu mewn diwyg digon mawr i'r holl gleifion ei gweld yn glir ac y dylid ei harddangos mewn rhan amlycach o'r ardal aros.

Ar y cyfan, canfuom fod tîm yr Uned yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Cadarnhaodd sgysiau gyda staff eu bod yn glanhau a sterileiddio offer deintyddol sydd wedi cael eu defnyddio yn ofalus mewn ystafell neilltuedig a oedd yn amlwg yn lân, taclus a threfnus. Roeddem hefyd yn fodlon ar y trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion deintyddol cleifion a welsom yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoledig, ond, er hynny, canfuom fod angen gwneud peth gwelliannau o ran cofnodi agweddau o ymgynghoriadau'r cleifion.

Canfuom ymhellach fod angen i'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau i'r trefniadau ar waith i arddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Rheolwyd yr Uned Addysgu Ddeintyddol gan gyfarwyddwr rhaglen hyfforddi o ddydd i ddydd, a'i cefnogwyd gan reolwr busnes, dau oruchwyliwr addysg ddeintyddol, a thîm ehangach o staff cyfeillgar, proffesiynol a brwdfrydig. Fodd bynnag, rheolir y gwasanaeth yn gyffredinol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Roedd gan yr Uned amryw o brosesau sicrhau ansawdd a gweithdrefnau clinigol priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn yr Uned a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi.

Gwnaethom nodi, serch hynny, bod angen i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau i'w cymryd i sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer cefnogaeth ac adolygiad gan gymheiriaid o ran y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi a'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol. Roedd angen sicrhau hefyd bod y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi ac un o'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol yn derbyn digon o amser ac adnoddau i'w helpu i gynnal eu harfer proffesiynol eu hunain.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r Uned Addysgu Ddeintyddol yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Canfuom hefyd fod y tîm yn rhoi pwyslais ar ddarparu gofal unigoledig i'r cleifion mewn da bryd.

Canfuom, serch hynny, fod angen gwneud peth gwelliannau i gynnwys y weithdrefn bryderon (cwynion) sydd ar waith. Argymhellwyd felly y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei chynhyrchu mewn diwyg digon mawr i'r holl gleifion ei gweld yn glir ac y dylid ei harddangos mewn rhan amlycach o'r ardal aros.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r staff sy'n gweithio yn yr Uned ddisbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

'Yn fodlon iawn gyda'r holl waith rwy wedi'i gael. Dyma oedd y deintydd gorau i mi ei weld. Diolch.'

'Cwrtais iawn, tyner iawn, ac yn llawn gwybodaeth.'

'Rwy'n fwy na hapus gydag agwedd a thriniaeth y practis deintyddol. Daliwch ati gyda'r gwaith da.'

'Mae'r staff i gyd, o'r derbynnydd i'r deintydd, wedi bod yn wych. Dydw i ddim yn hoffi mynd at y deintydd, ond rhaid i mi ddweud eu bod nhw wedi lleddfu fy mhryderon. Mae pawb mor gymwynasgar, proffesiynol a digynnwrf.'

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r Uned yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Mae hyn oherwydd gwelsom fod y staff yn broffesiynol iawn ond yn gyfeillgar, a chlywsom nhw'n bod yn gwrtais a moesgar tuag at gleifion yn ystod galwadau ffôn ac yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd y sylwadau a nodwyd yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd hefyd fod y cleifion wedi cael croeso wrth ymweld â'r gwasanaeth.

Gwelsom fod derbynfa'r Uned wedi'i lleoli pellter byr o fan aros cyfunol y cleifion (deintyddol a ffisiotherapi); lleolwyd y seddau mewn gofod agored, cyfunol ar lawr daear yr adeilad lle'r oedd amryw o aelodau'r cyhoedd yn eistedd. Golygodd hyn fod disgwyl i'r staff gyfyngu ar eu defnydd o fanylion llawn y

cleifion er mwyn lleihau'r posibilïad o bobl yn clywed sgysïau cyfrinachol. Gwelsom hefyd fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn aros ar gau ar adegau pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth.

Nododd un claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi clywed uwch-aelod o staff yn cynnig gwybodaeth i aelod arall o'r tîm mewn modd anghynorthwyol ar y diwrnod y gwnaeth ymweld â'r Uned. Ni roddodd y person dan sylw sylwadau ychwanegol ynghylch p'un a oedd wedi adrodd hyn wrth y rheolwr busnes ar y pryd. Cyflwynwyd y mater hwn wrth y tîm deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Dywedodd yr 14 claf sy'n weddill wrthym, yn ddieithriad, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin mewn modd cwrtais a chroesawgar gan y staff ar bob adeg. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom hefyd yn dangos bod y deintyddion wedi trafod triniaeth ddeintyddol cleifion unigol gyda nhw.

Roedd yr Uned (ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwybodaeth am amrywiaeth o gostau deintyddol, ac arddangoswyd yn glir yn y man aros y meini prawf cymhwysedd ar gyfer derbyn triniaeth y GIG am ddim er budd y cleifion.

Cawsom afael ar gopi o daflen wybodaeth cleifion y practis, ac roedd cyflenwad o'r rhain ar gael yn rhwydd i'r cleifion fynd â nhw adref. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth allweddol am y practis, y gellid ei chadw er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol, ar gael i'r cleifion.

Canfuom nad oedd gwefan yr Uned wedi'i diweddarau ers 2012. O'r herwydd, roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion yn anghywir, ynghyd ag enw aelod arall o'r tîm. Gwnaethom argymhell, felly, y dylai'r tîm staff gysylltu â'r person yn y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am wneud y fath newidiadau er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth gywir ynghylch y gwasanaeth.

Gofal amserol

Roeddem o'r farn bod yr Uned yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd. Cadarnhawyd hyn wrth ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd, a ddangosodd nad oedd y cleifion erioed wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn sicrhau eu bod yn hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, gyda threfniadau eraill yna'n cael eu cynnig.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn glir wrth fynedfa'r Uned. Roedd y rhif hefyd wedi'i restru yn nhaflen wybodaeth y cleifion. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb yr Uned hefyd yn hysbysu cleifion am y rhif cywir i'w ffonio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael cyngor ynglŷn â sut i gael triniaeth mewn argyfwng pan oedd y

gwasanaeth ar gau. Roedd hyn yn bwysig, yn arbennig am fod yr Uned wedi'i lleoli mewn adeilad amlbreswyliaeth ac nid yw'n bosibl arddangos rhifau ffôn brys ar y drws blaen oherwydd mesurau diogelwch sydd ohoni.

Cadw'n iach

Gwelsom fod swm cyfyngedig o ddeunydd hybu iechyd ar gael i'r cleifion gymryd i ffwrdd o'r man aros i helpu i'w cefnogi i ofalu am eu hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

Dangosodd sylwadau ysgrifenedig yn holiaduron cleifion AGIC yn glir fod cleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a thriniaeth.

Gofal unigol

Roedd gan yr Uned drefniadau ar waith i helpu pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad i'r lleoliad, a derbyn gofal a thriniaeth mewn modd diogel. Er enghraifft, roedd drysau awtomatig wrth fynedfa'r adeilad o'r man parcio neilltuedig. Canfuom hefyd fod yr holl ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Gwelsom fod cyfleusterau toiled anabl ar gael i gleifion. Fodd bynnag, roedd y drws oedd yn arwain at y toiled yn enwedig o drwm, a olygodd y byddai angen cymorth ar rai cleifion i gael mynediad. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y diffyg arwyddion yn yr adeilad mewn cysylltiad â lleoliad yr Uned, ond dywedwyd wrthym fod cleifion yn dueddol o ofyn am gyfeiriadau wrth y brif dderbynfa ger mynedfa'r adeilad.

Dangosodd trafodaethau gyda'r rheolwr busnes a'r uwch-nyrs ddeintyddol fod yr Uned yn cwblhau arolwg cleifion yn flynyddol. Roedd hyn yn ffordd o gasglu safbwyntiau pobl ar y gwasanaethau a ddarperir ac i nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Darparwyd copi o ddatdangosiad yr arolwg a gwblhawyd ym mis Awst 2015 inni, a gwelsom fod y gwasanaeth wedi derbyn nifer o sylwadau ac ymatebion cadarnhaol gan gleifion.

Gwelsom fod gan yr Uned weithdrefn bwrdd iechyd ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Darparwyd gwybodaeth hefyd inni ynghylch natur y cwynion a gafodd eu dwyn i sylw'r gwasanaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf. Cafwyd ychydig iawn o gwynion, ac roedd pob un

ohonynt wedi'u cydnabod a'u datrys o fewn y terfynau amser a bennwyd gan drefniadau 'Gweithio i Wella'¹ y GIG.

Dywedodd wyth claf a ddychwelodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol y maent yn eu derbyn, pe bai angen. Yn ogystal, nid oedd gweithdrefn gwyno'r Uned yn cynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned leol yn unol â hawliau'r cleifion i ofyn am eu cefnogaeth/eiriolaeth gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Gwnaethom nodi ymhellach nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt yn gysylltiedig â'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn uchel ar y wal ac wedi ei chynhyrchu mewn print mân, a olygodd na fyddai rhai pobl ag anawsterau gweledol yn gallu ei darllen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gofynnir i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth gywir yn ymwneud â chwynion y GIG sy'n cael ei harddangos yn amlwg a bod hyn yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella'.

¹ Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer rheoli pryderon yn y GIG: *Gweithio i Wella*. Eu nod oedd ei gwneud hi'n haws i [gleifion a gofalwyr](#) godi pryderon; i ennyn diddordeb ac i gael eu cefnogi yn ystod y broses; i gael eu trin yn agored ac yn onest; ac i gyrff ddangos eu bod wedi dysgu o ganlyniad i bethau fynd o chwith neu pan fo angen i safonau wella.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod yr Uned Addysgu Ddeintyddol yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Cadarnhaodd sgysiau gyda staff eu bod yn glanhau a sterileiddio offer deintyddol sydd wedi cael eu defnyddio yn ofalus mewn ystafell neilltuedig a oedd yn amlwg yn lân, taclus a threfnus. Roeddem hefyd yn fodlon ar y trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion deintyddol cleifion a welsom yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoledig, ond, er hynny, canfuom fod angen gwneud peth gwelliannau o ran cofnodi agweddau o ymgynghoriadau'r cleifion.

Canfuom ymhellach fod angen i'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau i'r trefniadau ar waith i arddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Gofal diogel

Gwelsom fod yr Uned wedi cwblhau asesiad risg iechyd a diogelwch o'r adeilad yn y blynyddoedd diweddar. Nid oedd angen camau gweithredu adferol. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan reolwr yr adeilad (a gyflogir gan y bwrdd iechyd i oruchwylio iechyd a diogelwch yn yr adeilad amlbreswyliaeth) rôl amlwg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn golygu bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Datgelodd taith o'r adeilad hefyd fod pob ardal o'r adeilad a ddefnyddir gan staff a chleifion wedi ei chynnal yn dda iawn.

Canfuom fod tîm yr Uned wedi cynhyrchu ffeil sy'n cynnwys taflenni gwybodaeth/data ynghylch pob defnydd posibl o sylweddau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (Cosh). Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg i arwain y staff o ran y cynhyrchion a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd a pha gamau gweithredu oedd angen eu cymryd pe bai rhywun yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbysir y bwrdd iechyd o'r angen i roi i AGIC y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gan y staff fynediad at asesiad risg cyfredol ynghylch yr holl sylweddau CoSHH a ddefnyddir. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

Gwnaethom gynnal trafodaethau gyda'r tîm deintyddol ynghylch Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) a ddaeth i rym ar 11 Mai 2013. Roedd y rheoliadau uchod yn ychwanegu at y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol sydd eisoes yn mynnu bod cyflogwyr ym mhob sector yn cymryd camau gweithredu effeithiol i reoli'r risg o anafiadau gan offer miniog.

Er inni glywed bod y tîm wedi cwblhau asesiad risg i benderfynu p'un a oedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer defnyddio a gwaredu offer yn ddiogel (gan gynnwys 'offer miniog saffach' lle bo'n rhesymol ymarferol), nid oedd modd inni gael ein sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth 2013.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi i AGIC manylion llawn y camau a gymerwyd/i'w cymryd i arddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd).

Roedd contract casglu a gwaredu gwastraff ar waith, ac roeddem yn fodlon ar y trefniadau hynny. Roedd gwastraff clinigol oedd yn aros i gael ei gasglu wedi'i storio mewn bin y tu cefn i'r adeilad. Er bod hyn o fewn ardal storio dan glo, gwelsom nad oedd y bin wedi'i gloi. Roedd hyn yn golygu bod posibilid y gall aelodau o'r cyhoedd ddod i gysylltiad â gwastraff peryglus yn ystod oriau agor y gwasanaeth. Gwnaethom hysbysu'r tîm o'r mater hwn er mwyn i reolwr yr adeilad gael ei hysbysu, gan fod nifer o'r gwasanaethau sy'n gweithredu yn yr adeilad yn defnyddio'r un cyfleuster ar gyfer storio gwastraff.

Wrth arsylwi ar amgylchedd yr Uned, amlygwyd y ffaith bod angen i'r bwrdd iechyd ddiwygio'i gyfarwyddiadau gadael mewn achos o dân er mwyn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd a'r staff ble mae'r man ymgynnull cywir. Gwelsom hefyd nad oedd fersiwn gyfredol y poster iechyd a diogelwch yn cael ei harddangos yn y gweithle, fel sy'n ofynnol at ddibenion gwybodaeth staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod ei weithdrefn gadael mewn achos o dân yn gywir. Mae'n rhaid hefyd i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i arddangos, fel sy'n ofynnol, fersiwn gyfredol o'r poster iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod profion dyfeisiadau cludadwy (trydanol) wedi cael eu cwblhau gan reolwr yr adeilad yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Roedd ystafell ddadheintio benodedig yn yr Uned, lle'r oedd offer yn cael eu glanhau a'u sterileiddio wedi iddynt gael eu defnyddio. Roedd yr ystafell yn lân,

yn daclus ac wedi'i dylunio fel bod llif yr offer (o frwnt i lân) yn dilyn canllawiau arferion gorau, fel y nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).²

Dangosodd sgysiau gyda staff nyrsio deintyddol fod prosesau a ddeallir yn dda ar waith ar gyfer cwblhau gwiriadau offer gofynnol yn yr ystafell ddadheintio ar ddechrau a diwedd pob dydd. Cefnogwyd hyn gan gofnodion, a wnaeth gadarnhau bod gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol wedi eu cynnal ar gyfer offer. Rhoddwyd disgrifiad cynhwysfawr a boddhaol inni hefyd o'r gweithdrefnau ar waith sydd wedi eu hen sefydlu ar gyfer glanhau a sterileiddio offer.

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi cael eu rhoi mewn pecynnau priodol ar ôl eu sterileiddio. Gwelsom hefyd fod pecynnau'r offer wedi'u stampio â'r dyddiad y sterileiddiwyd yr offer a'r dyddiad dod i ben cyn eu storio, i alluogi'r staff i wybod pryd y dylent eu defnyddio er mwyn gwarchod y cleifion.

Rhoddwyd copi inni o archwiliad rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a ddechreuwyd ym mis Chwefror 2016 ac oedd o'r herwydd yn dal yn barhaus. Roedd archwiliad a gwblhawyd ynghynt (2014) wedi caniatáu i'r tîm deintyddol hunanasesu eu harferion yn erbyn y canllawiau, ac i ddatblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol.

Roedd gan yr Uned weithdrefnau ar waith i ymdrin ag amrywiaeth o argyfyngau cleifion. Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Storiwyd y rhain yn ddiogel. Fodd bynnag, canfuom y canlynol:

- Roedd rhestr gwirio offer/cyffuriau brys ar waith. Fodd bynnag, roedd hyn yn hollol ar wahân i'r ffurflen wythnosol yr oedd y staff yn ei harwyddo i gadarnhau bod popeth o fewn dyddiad ac yn barod i'w ddefnyddio. Roedd hyn yn golygu bod gwallau'n bosibl yn y broses wirio.
- Roedd y staff yn gwybod ble yr oedd y cyffuriau brys yn cael eu storio (a chyfeiriwyd at hyn yn y pecyn sefydlu i helpu staff newydd). Fodd bynnag, cafodd mwyafrif y cyffuriau eu storio'n anghywir yn oergell y practis. Yn ogystal, roedd dau gyffur brys arall yn cael eu storio mewn man arall, ac un ohonynt yn cael eu cadw y tu allan i'r

²Mae [dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

adran mewn rhan arall o'r adeilad. O ystyried yr angen i sicrhau y ceir mynediad at gyffuriau brys yn ddi-oed mewn achos brys (llewyg claf), rhaid ymaffael â'r mater hwn.

- Roedd siartiau llif yn ymwneud â'r defnydd o gyffuriau brys yn bresennol wrth ochr y cyffuriau. Fodd bynnag, roeddent yn cael eu cadw mewn ffolderi agored, a olygodd y byddai'n bosibl iddynt gael eu gwahanu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i gynorthwyo'r staff i ymateb i unrhyw achosion brys a allai godi yn ymwneud â chleifion.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod gan yr Uned aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf a oedd yn gweithio bob dydd.

Canfuom fod polisi diogelu plant ac oedolion ar waith yn yr Uned. Gwelsom hefyd fod gan staff fynediad rhwydd at rifau cyswllt y timau diogelu lleol. Roedd cofnodion hyfforddi hefyd ar gael yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion.

Dangosodd archwiliadau pellach o gofnodion y staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd ar nifer o bynciau perthnasol a gofynnol. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais ar sicrhau eu bod yn gymwys i ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd gan y bwrdd iechyd ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau corfforaethol ar waith, a oedd yn briodol a chyfredol ac wedi eu datblygu'n lleol, i'r staff eu dilyn yn ystod eu gwaith. Dangosodd sgysiau â staff eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y wybodaeth honno yn ôl yr angen.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw offer yn ystod ein harolygiad. Roeddem yn gallu cadarnhau, felly, bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu trin yn ddiogel.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant perthnasol i staff a gwaith cynnal a chadw, a phrofion, ar offer. Gwelsom hefyd fod archwiliadau

pelydr-X wedi cael eu cynnal i helpu sicrhau ansawdd y delweddau a gymerwyd a'r rhesymau dros eu cymryd.

Rhodddwyd copi o ddogfen inni a dywedwyd wrthym fod y ddogfen, fel sy'n ofynnol, wedi cael ei hanfon at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystod 2010 (pan agorwyd y gwasanaeth) i'w hysbysu bod gan y gwasanaeth gyfarpar pelydr-X ar y safle. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen yn nodi at bwy y'i hanfonwyd. Nid oedd y gwasanaeth ychwaith yn gallu darparu tystiolaeth inni o ymateb gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ffurf llythyr neu e-bost. Gwnaethom siarad, felly, â'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd enwebedig a gofyn i'r mater hwn gael ei ddilyn.

Gofal effeithiol

Roedd yr uned yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Ar y cyfan, gwelsom fod cynnwys y 12 o gofnodion cleifion yn fanwl ac yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn modd sy'n sicrhau eu diogelwch. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y gellid gwella cysondeb y cofnodion mewn perthynas ag agweddau ar ymgynghoriadau cleifion fel a ganlyn:

- Nid oedd hanes cymdeithasol (gan gynnwys ysmegu a defnydd o alcohol) yn cael ei gofnodi'n gyson. Mae hyn yn bwysig oherwydd gwyddwn fod y fath ddewisiadau ffordd o fyw yn andwyo iechyd dannedd a chegau cleifion.
- Ni chofnodwyd bob tro archwiliadau periodontol sylfaenol (math o archwiliad o rannau/meinweoedd y geg i nodi clefyd y deintgig).
- Roedd cofnodi hanesion meddygol diweddar yn anghyson (a byddai hyn yn darparu tystiolaeth bod y deintydd wedi gwirio cyflyrau meddygol cleifion cyn rhoi triniaeth).
- Methodd dau gofnod claf ddarparu tystiolaeth bod yr Uned yn cydymffurfio â chanllawiau galw cleifion yn ôl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Rhodddwyd gwybodaeth inni gan y bwrdd iechyd a ddangosodd fod yr Uned yn cwblhau lefel uchel o atgyfeiriadau at wasanaethau sydd ar gael i annog a chefnogi cleifion i roi'r gorau i ysmegu.

Gwnaeth tîm yr Uned archwilio'n rheolaidd a pharhaus agweddau perthnasol o arfer a darpariaeth gwasanaeth. Nodwyd y pynciau archwilio gan ddefnyddio ystod o ddulliau megis Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd.³ Defnyddiodd yr Uned ddulliau archwilio Llywodraeth Cymru, Deoniaeth Cymru a Dental Protection, a seiliwyd y dulliau hefyd ar ganllawiau a gynhyrchwyd gan Gyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol⁴. Dywedwyd wrthym hefyd fod canlyniadau'r holl weithgareddau archwilio yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm, bod yr hyn sydd wedi'i ddysgu'n cael ei weithredu, a bod archwiliadau'n cael eu hailgynnal.

Daethom i wybod am amrywiaeth o weithgareddau archwilio unigol a thîm a gwblhawyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (yn gysylltiedig â dadheintio, trefniadau adalw cleifion am apwyntiadau, hanesion meddygol cleifion, a mynediad at y gwasanaeth gan gleifion brys) fel ffordd o nodi, a gwneud, gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion. Cwblhaodd y gwasanaeth archwiliad pellach mewn cysylltiad â chynnwys cardiau cofnodion y cleifion yn dilyn ein harolygiad.

³Dull datblygu practis yw'r Ddeintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd sy'n helpu timau deintyddol i gyflenwi gofal o ansawdd uchel i gleifion.

⁴Mae Cyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn bodoli i wella safonau gofal cleifion. Mae'r sefydliad hwn yn darparu gwybodaeth chwarterol i weithwyr proffesiynol deintyddol am yr ymchwil ac erthyglau diweddaraf ynglŷn â deintyddiaeth.

<http://www.fgdp.org.uk/members/membersonlineresources/members-logo/what-is-an-fgdpuk-member.ashx>

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Rheolwyd yr Uned Addysgu Ddeintyddol gan gyfarwyddwr rhaglen hyfforddi o ddydd i ddydd, a'i cefnogwyd gan reolwr busnes, dau oruchwyliwr addysg ddeintyddol, a thîm ehangach o staff cyfeillgar, proffesiynol a brwdfrydig. Fodd bynnag, rheolir y gwasanaeth yn gyffredinol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Roedd gan yr Uned amryw o brosesau sicrhau ansawdd a gweithdrefnau clinigol priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi.

Gwnaethom nodi, serch hynny, bod angen i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau i'w cymryd i sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer cefnogaeth ac adolygiad gan gymheiriaid o ran y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi a'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol. Roedd angen sicrhau hefyd bod y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi ac un o'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol yn derbyn digon o amser ac adnoddau i'w helpu i gynnal eu harfer proffesiynol eu hunain.

Mae Uned Addysgu Ddeintyddol Port Talbot yn rhan o wasanaethau deintyddol y GIG a ddarperir a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Cyflogir yr holl staff yn uniongyrchol gan y bwrdd iechyd. Roedd y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi yn chwarae rhan weithredol o ran rhedeg a rheoli'r Uned o ddydd i ddydd, gan weithio'n agos gyda thîm staff cyfeillgar, proffesiynol a brwdfrydig. Dangosodd trafodaethau a gynhaliwyd gyda nifer o'r tîm deintyddol yn glir fod diwylliant gweithio cadarnhaol yn cael ei annog gan yr uwch staff, ac roedd unigolion yn cefnogi'r naill a'r llall yn dda yn ystod y diwrnod gwaith.

Gwelsom fod staff clinigol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad.

Gwelsom fod cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn brechiad rhag Hepatitis B. Roedd hwn yn ffordd o warchod cleifion a'u hunain rhag haint.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff yn drefnus iawn a dywedwyd wrthym nad oedd yr Uned byth yn defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaeth. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan grŵp craidd o staff a oedd yn deall beth oedd yn ddisgwyliedig ganddynt ac a oedd yn gyfarwydd i'r cleifion.

Roedd gan y tîm deintyddol y sgiliau, yr hyder a'r cymhwysedd gofynnol i fodloni anghenion gofal a thriniaeth cleifion. Er enghraifft, canfuom fod yr Uned wedi datblygu rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau y darparwyd ffordd i unrhyw aelod newydd o'r tîm deintyddol ddod yn gyfarwydd â'r prosesau a gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â gwasanaethau cleifion. Dangosodd trafodaethau gyda'r cyfarwyddwr rhaglen yr ymdrechion a wneir i ddarparu goruchwyliaeth un i un a grŵp, ar ffurf ffurfiol ac anffurfiol, ar gyfer y deintyddion sylfaen. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu trwy arsylwi ar weithdrefnau deintyddol a thrafodaethau dilynol gydag uwch aelod o'r tîm.

Gwnaethom drafod hefyd y trefniadau cefnogi ar waith ar gyfer y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi a'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol, oherwydd gwnaethom gydnabod yr heriau maent yn eu hwynebu wrth reoli'r uned brysur a chefnogi'r deintyddion sylfaen. Er bod pob un o'r unigolion yn darparu peth cefnogaeth anffurfiol i'w gilydd, nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith i'w cefnogi a'u goruchwyllo. Yn ogystal, canfuom fod dau o'r tri gweithiwr proffesiynol dan sylw yn methu â chwblhau sesiynau arfer deintyddol yn eu rhinwedd eu hunain oherwydd y dywedwyd bod nifer annigonol o nyrsys deintyddol yn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i roi i AGIC manylion y camau gweithredu i'w cymryd i sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i'r cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi a'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol dderbyn adolygiadau a chefnogaeth gan gymheiriaid. Mae angen hefyd sicrhau bod y cyfarwyddwr rhaglen hyfforddi ac un o'r goruchwylwyr addysg yn derbyn digon o amser ac adnoddau i'w helpu i gynnal eu harfer proffesiynol eu hunain.

Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff misol lle roeddent yn cael cyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol. Gwelsom sampl o gofnodion a gymerwyd yn ystod y cyfarfod diweddaraf a ddangosodd fod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch amrywiaeth o faterion gweithredol perthnasol gan gynnwys mynediad/niferoedd cleifion ac archwiliadau oedd yn digwydd (mewn cysylltiad ag adalw cleifion, sterileiddio ac ysmegu).

Canfuom fod y rheolwr busnes wrthi'n datblygu system ar gyfer cynnal gwerthusiadau staff blynyddol. Bydd system o'r fath yn galluogi, yn y dyfodol, i drafodaethau un-i-un ddigwydd rhwng staff i benderfynu p'un a yw'r hyfforddiant

a ddarparwyd wedi bod yn effeithiol, yn ogystal â chynllunio hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod trafodaethau â staff, gwelwyd eu bod yn teimlo'n hyderus i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn yr Uned. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith pe bai staff yn teimlo bod angen mynegi pryderon ynglŷn â'r gwasanaeth 'y tu hwnt' i'r tîm deintyddol.

1. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn yr Uned Addysgu Ddeintyddol yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

2. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Gwasanaeth Deintyddol:Cynllun Gwella

Practis: Yr Uned Addysgu Ddeintyddol – Canolfan Adnoddau Port
Talbot

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 8	Gofynnir i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth gywir yn ymwneud â chwynion y GIG sy'n cael ei harddangos yn amlwg a bod hyn yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella'. (Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1)	Safon 6.3			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 9	Hysbysir y bwrdd iechyd o'r angen i roi i AGIC y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gan y staff fynediad at asesiad risg cyfredol ynghylch yr holl sylweddau CoSHH a ddefnyddir. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch.	Safon 2.1			
Tudalen 10	Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi i AGIC manylion llawn ynghylch y camau a gymerwyd/i'w cymryd i arddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd).	Safon 2.1			
Tudalen 11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod ei weithdrefn gadael mewn achos o dân ysgrifenedig yn gywir. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hefyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i arddangos, fel sy'n ofynnol, fersiwn gyfredol o'r	Safon 2.1			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	poster iechyd a diogelwch yn y gweithle.				
Tudalen 13	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i gynorthwyo'r staff i ymateb i unrhyw achosion brys a allai godi yn ymwneud â chleifion.	Safon 2.9			
Tudalen 14	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol. (Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1)	Safon 3.5			
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 17	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i roi i AGIC manylion y camau gweithredu i'w cymryd er mwyn sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i gyfarwyddwr y rhaglen	Safon 7.1			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	hyfforddi a'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol gael adolygiadau a chefnogaeth gan gymheiriaid. Mae angen hefyd sicrhau bod cyfarwyddwr y rhaglen hyfforddi ac un o'r goruchwylwyr addysg ddeintyddol yn derbyn digon o amser ac adnoddau i'w helpu i gynnal eu harfer proffesiynol eu hunain.				

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad:.....